

Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd



Darganfod

Cyfrannu

Rhannu

Mae Casgliad y Werin Cymru yn blatfform i unigolion, grwpiau cymunedol a sefydliadau lleol a chenedlaethol gyfrannu a rhannu cynnwys.

Mae'n wefan rad ac am ddim sy'n cynnig dulliau newydd, cyffrous o ddefnyddio cynnwys a'i rannu â chynulleidfaoedd newydd.

Beth all Casgliad y Werin Cymru ei gynnig i'm sefydliad?

- Platform rhad ac am ddim i rannu cynnwys â chynulleidfaoedd newydd
- Cyfle i hyrwyddo eich gwasanaeth a chyflwyno eich casgliadau mewn modd mentrus
- Yr offer a'r sgiliau angenrheidiol i ddigideiddio eich casgliad, a'i gadw i genedlaethau'r dyfodol
- Budd o fod yn rhan o fenter ehangach gan gynnwys proffil cyhoeddus uwch, rhannu adnoddau ac arbrofi â thechnoleg newydd
- Cyfle i dderbyn hyfforddiant pellach

Gorsafodd Treftadaeth Ddigidol

Caiff Gorsafodd Treftadaeth Ddigidol eu gosod mewn sefydliadau fel amgueddfeydd a llyfrgelloedd gan roi mynediad rhad ac am ddim i'r cyhoedd i gyfleusterau TG ac offer digideiddio. Mae'r gorsafodd yma'n hwyluso'r gwaith o ymchwilio a digideiddio eitemau hanesyddol, gan eu cadw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn sefydlu Gorsaf Treftadaeth Ddigidol yn eich sefydliad, neu am ragor o wybodaeth, cysylltwch â casgliadywerin@llgc.org.uk neu ffoniwch (01970) 632 500.

Ydych chi am ddod yn un o Hyrwyddwyr Casgliad y Werin Cymru?

Rhaid i Hyrwyddwyr fod yn staff neu'n wirfoddolwyr mewn Gorsafodd Treftadaeth Ddigidol a dyletswydd Hyrwyddwr yw helpu eraill i rannu cynnwys, yn ogystal â hybu gweithgarwch treftadaeth. Gall Hyrwyddwyr hefyd ddewis dilyn cwrs Fframwaith Cymhwyster Agored Cymru sef 'Digido ar gyfer Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifau'.

Am ragor o wybodaeth am Hyrwyddwyr Casgliad y Werin Cymru a Gorsafodd Treftadaeth Ddigidol ewch i wefan www.casgliadywerin.cymru.



Y Corn Hirlas – hawlfraint Amgueddfa Genedlaethol Cymru



Lewis Jones, un o arweinwyr y daith i'r Wladfa ym Mhatagonia, yng nghwmni'r Tehuelches, tua 1867 – hawlfraint Casgliadau Arbennig Prifysgol ac Archifau Bangor



Poster Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon, 1906 – hawlfraint Llyfrgell Genedlaethol Cymru